Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig mewn addysg uwch 2026/27

## Canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig mewn addysg uwch 2026/27

## Canllaw i etholwyr

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2026

**Awdur:**
**Lucy Yarham**

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd. Ni fwriedir iddo gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



Bwriad y canllaw hwn yw helpu dysgwyr ôl-raddedig i ddeall pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i'w helpu i astudio cwrs addysg uwch.

Yn wahanol i gymorth ariannol israddedig, pan fo'r cymorth yn cael ei rannu rhwng help gyda'ch ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw, fel myfyriwr cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth byddwch yn cael un swm o arian a chi sy'n dewis sut i'w ddefnyddio.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn gymhleth iawn, ac mae llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod 'fel arfer' yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad neu hawl.

Mae cymorth ariannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Mae gan Ymchwil y Senedd ganllaw ar gyfer cymorth ariannol i f**yfyrwyr israddedig** ac i fyfyrwyr mewn **addysg bellach**.

*Ymwadiad: Mae pobl yn holi Ymchwil y Senedd yn rheolaidd ynghylch cyllid myfyrwyr ac mae'r canllaw hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

**Ni all Ymchwil y Senedd roi cyngor ar achosion nac amgylchiadau unigol. I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth, cysylltwch â Chyllid Myfyrwyr Cymru.**

# Cynnwys


**1. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig ........ 8**

Meini prawf cymhwysedd ........ 8

Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth ........ 8

Eich cwrs ........ 8

Eich prifysgol neu eich coleg ........ 9

Eich oedran ........ 9

Eich astudiaethau blaenorol ........ 9

Ffrydiau ariannu eraill ........ 9

**2. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig ........ 11**

Meini prawf cymhwysedd ........ 11

Cenedligrwydd a phreswyliaeth ........ 11

Eich cwrs ........ 11

Eich prifysgol neu eich coleg ........ 12

Eich oedran ........ 12

Eich astudiaethau blaenorol ........ 12

Ffrydiau ariannu eraill ........ 12

**3. Cyllid ar gyfer cyrsiau eraill ........ 14**

Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig ........ 14

Cymhelliant hyfforddi athrawon ........ 14

Cyllid gradd gofal cymdeithasol ........ 14

**4. Ffynonellau eraill o gymorth ariannol ........ 16**

Lwfansau myfyrwyr anabl ........ 16

Cynghorau ymchwil ........ 16

Y Gyfraith ........ 16

Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau ........ 16

Dawns, drama a cherdd ........ 17

Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ........ 17

# 1. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig

Os ydych yn dechrau cwrs Meistr ôl-raddedig, naill ai wedi'i addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil, gallwch wneud cais am fenthyciad i helpu gyda chostau'r cwrs. Yn **2026/27**, mae hyn hyd at £19,635.

Os yw eich cwrs yn para mwy na blwyddyn, bydd yr arian yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws pob blwyddyn o'ch cwrs. Mae'n rhaid ichi ad-dalu unrhyw fenthyciad a gewch, gan gynnwys llog, ar ôl ichi orffen neu adael eich cwrs.

## Meini prawf cymhwysedd

Mae'r **rheolau'n ymwneud â chymhwysedd yn gymhleth**. Canllaw cyffredinol yn unig yw hwn felly nid yw'n cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau posibl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cymhwysedd, dylech gysylltu â **Cyllid Myfyrwyr Cymru** yn uniongyrchol.

Yn gyffredinol, mae cymhwysedd yn dibynnu ar ffactorau fel:

- Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth;
- Eich cwrs;
- Eich prifysgol neu eich coleg;
- Eich oedran;
- Eich astudiaethau blaenorol.

### Eich cenedligrwydd a phreswyliaeth

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys, mae angen i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â statws preswylydd sefydlog;
- yn byw yng Nghymru fel arfer; a hefyd
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Eich cwrs

Rhaid i'ch **cwrs** fod yn:

- gwrs Meistr annibynnol llawn, nid cwrs atodol;
- cwrs sy'n werth o leiaf 180 credyd; a hefyd
- para rhwng 1 a 4 blwyddyn.

Gall fod yn amser llawn neu'n rhan-amser, ac yn cael ei addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys am gyllid hyfforddi athrawon, dysgu o bell, cyrsiau integredig a chyrsiau pensaernïaeth, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Eich prifysgol neu eich coleg

Rhaid i'r brifysgol neu goleg fod wedi'i gymeradwyo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod yn y DU.

Os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn **cwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru**. Os ydych yn ansicr, gallwch wirio gyda'ch prifysgol neu'ch darparwr.

## Eich oedran

Rhaid i chi fod **dan 60 oed** ar y diwrnod y bydd eich cwrs yn cychwyn.

## Eich astudiaethau blaenorol

Os oes gennych radd Meistr eisoes (neu os oes gennych gymhwyster uwch na gradd Meistr) neu os ydych wedi cael benthyciad neu gyllid gradd Meistr ôl-raddedig o'r blaen, mae'n annhebygol y byddwch yn gymwys i gael y cyllid hwn.

Efallai y byddwch yn gallu cael y cyllid os bu'n rhaid i chi adael eich cwrs blaenorol oherwydd rhesymau personol cymhellol, a byddai angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Ffrydiau ariannu eraill

Ni fyddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os ydych chi'n cael cyllid gan y canlynol:

- Bwrsariaeth gwaith cymdeithasol;
- Bwrsariaeth GIG Cymru; neu
- Unrhyw gynlluniau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# 2. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig

Gall myfyrwyr doethuriaeth sy'n dechrau cwrs rhan-amser neu amser llawn wneud cais am fenthyciad **Cwrs Doethurol Ôl-raddedig** o hyd at £29,705 dros gyfnod y rhaglen.

Gwneir taliadau mewn cyfrandaliadau ar draws nifer blynyddoedd y rhaglen ddoethurol. Nid yw'r benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd. Mae'n rhaid ichi ad-dalu unrhyw fenthyciad a gewch, gan gynnwys llog, ar ôl ichi orffen neu adael eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

## Meini prawf cymhwysedd

Yn fras, mae cymhwysedd yn debyg i'r meini prawf ar gyfer cyllid gradd Meistr ôl-raddedig ac yn dibynnu ar eich cenedligrwydd a'ch preswyliaeth, eich oedran, eich cwrs a'ch prifysgol neu eich coleg a'ch astudiaethau blaenorol.

### Cenedligrwydd a phreswyliaeth

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys, mae angen i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â statws preswylydd sefydlog;
- yn byw yng Nghymru fel arfer; a hefyd
- wedi bod yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

Mae rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Eich cwrs

Rhaid i'ch cwrs:

- Fod yn gwrs Doethurol ôl-raddedig annibynnol (nid cwrs atodol);
- Bod wedi dechrau ar 1 Awst 2018 neu wedi hynny; a hefyd
- Para rhwng 3 ac 8 blwyddyn academaidd.

Gall fod yn amser llawn neu'n rhan-amser, ac yn cael ei addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys am ddysgu o bell a chyrsiau integredig, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Eich prifysgol neu eich coleg

Rhaid i'r brifysgol neu goleg fod wedi'i gymeradwyo i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, a bod yn y DU.

Os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn **cwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru**. Os ydych yn ansicr, gallwch wirio gyda'ch prifysgol neu'ch darparwr.

Os oes mwy nag un brifysgol yn gyfrifol am ddarparu'ch cwrs ac mae'r llall dramor, byddwch yn gymwys dim ond os mai'r brifysgol yn y DU yw'r prif sefydliad ar gyfer eich cwrs ac yn darparu'ch goruchwyliaeth. Rhaid i chi hefyd dreulio o leiaf 50 y cant o'ch addysgu mewn prifysgol yn y DU.

## Eich oedran

Rhaid i chi fod **dan 60 oed** ar y diwrnod y bydd eich cwrs yn cychwyn.

## Eich astudiaethau blaenorol

Nid ydych yn gymwys i gael Benthyciad cwrs Doethurol Ôl-raddedig yn yr achosion a ganlyn:

- Rydych chi wedi cael Benthyciad cwrs Doethurol Ôl-raddedig eisoes;
- Mae gennych radd Doethurol eisoes, neu gymhwyster cyfwerth neu uwch.

Efallai y byddwch yn gallu cael y cyllid os bu'n rhaid i chi adael eich cwrs blaenorol oherwydd rhesymau personol cymhellol, a byddai angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

## Ffrydiau ariannu eraill

Ni fyddwch yn gymwys i gael y Benthyciad Doethurol Ôl-raddedig gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os yw'r canlynol yn wir:

- Rydych chi'n cael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol neu unrhyw gynllun cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, neu bwrsariaeth GIG;
- Rydych chi'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn cael Bwrsariaeth Seicoleg Addysgol; neu
- Rydych chi'n cael lwfans, bwrsariaeth neu ddyfarniad a wnaed gan Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (neu UKRI) tuag at eich cwrs Doethurol ôl-raddedig.

# 3. Cyllid ar gyfer cyrsiau eraill

## Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig

Os oes gennych radd israddedig eisoes ac rydych yn dymuno gwneud cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig, dylech wneud cais am yr un cyllid â myfyriwr israddedig. Mae hyn yn golygu y gallech fod yn gymwys i wneud cais am gymorth ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw. Mae gennym ganllaw ar wahân ar gyllid myfyrwyr israddedig ar gyfer 2026/27 sydd â rhagor o wybodaeth.

### Cymhelliant hyfforddi athrawon

Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau cymhelliant ar gyfer **hyfforddiant cychwynnol i athrawon** ar ben y cymorth ariannol tebyg i'r cymorth i fyfyrwyr israddedig a grybwyllwyd uchod.

Mae gan Lywodraeth Cymru **dri chynllun cymhelliant** i fyfyrwyr:

- **Pynciau blaenoriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon**: mae grantiau ar gael i fyfyrwyr cymwys â graddau penodol sy'n ymgymryd â rhaglen achrededig hyfforddiant cychwynnol i athrawon gyda Statws Athro Cymwysedig;
- **Cymhellion Iaith Athrawon Yfory**: mae'r grantiau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio am gymhwyster sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu Cymraeg fel pwnc;
- **Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol**: mae grantiau ar gael i fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n astudio rhaglen AGA achrededig gyda Statws Athro Cymwysedig.

## Cyllid gradd gofal cymdeithasol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweinyddu bwrsariaethau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n dilyn gradd Meistr gwaith cymdeithasol gymeradwy yng Nghymru.

I gael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn esbonio fod yn rhaid bodloni'r amodau canlynol:

- byw yng Nghymru;
- rhaid i chi beidio â chael cymorth ariannol arall gan gyflogwr i hyfforddi;
- rhaid i chi astudio **cwrs gradd Meistr cymeradwy yng Nghymru**.

I gael rhagor o wybodaeth am faint o gyllid sydd ar gael a sut i wneud cais, gweler **gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru**.

# 4. Ffynonellau eraill o gymorth ariannol

## Lwfansau myfyrwyr anabl

Mae'r **Lwfansau Myfyrwyr Anabl** yn ffynhonnell arall o gyllid sydd ar gael i fyfyrwyr sydd ag anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd meddwl, salwch tymor hir neu unrhyw anabledd arall.

Nid yw'r lwfans yn dibynnu ar incwm eich aelwyd ac nid oes angen i chi ei ad-dalu. Gellir defnyddio hwn i dalu costau offer arbenigol, cynorthwyydd anfeddygol, a chostau mwy cyffredinol sydd gennych.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys symiau'r cyllid, ar gael gan **Cyllid Myfyrwyr Cymru** sydd hefyd yn cyhoeddi **canllaw ar y Lwfans Myfyrwyr Anabl**.

## Cynghorau ymchwil

Corff yw **Ymchwil ac Arloesi'r DU** (neu UKRI) sy'n dwyn at ei gilydd y saith Cyngor Ymchwil yn y DU ynghyd ag Innovate UK a Research England.

Mae gan bob Cyngor Ymchwil ei bortffolio ei hun sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys y gwyddorau meddygol a biolegol, ffiseg, cemeg a pheirianneg, gwyddorau cymdeithasol, economeg, gwyddorau amgylcheddol a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Mae pob un o'r Cynghorau Ymchwil yn ystyried cyllido ôl-raddedigion unigol, ond mae'r broses o sicrhau cyllid gan unrhyw gyngor ymchwil yn gystadleuol, ac nid yw'r ffaith bod myfyriwr wedi cael lle ar raglen ôl-radd yn golygu, o anghenraid, y dyfernir cyllid iddo. Mae gwybodaeth fanylach am gyllid ar gael ar **wefan UKRI**.

## Y Gyfraith

Mae **Cymdeithas y Cyfreithwyr** yn cynrychioli cyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu cymorth mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys lobïo a thrafod â rheoleiddwyr, y llywodraeth ac eraill, ac yn cynnig hyfforddiant a chyngor.

Mae'n gweinyddu cynllun mynediad o'r enw'r **Diversity Access Scheme** i helpu pobl ymroddedig ac eithriadol o ddawnus i oresgyn rhwystrau cymdeithasol, economaidd neu bersonol rhag dod yn gyfreithiwr. Gall y cynllun hwn ddarparu ysgoloriaethau i ariannu Cwrs Ymarfer y Gyfraith, lleoliadau gwaith a chymorth mentora.

## Cronfeydd prifysgolion a sefydliadau

Mae holl brifysgolion Cymru (a'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill y DU) yn cynnig rhyw fath o gymorth ariannol dewisol. Mae'r cynlluniau hyn yn defnyddio enwau gwahanol, ond maent yn cynnwys cronfeydd caledi, bwrsariaethau neu ysgoloriaethau.

Maent at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys gwobrwyo rhagoriaeth academaidd neu ragoriaeth arall a chefnogi myfyrwyr gyda chostau byw neu drafferthion ariannol. Efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am rai cyn i chi ddechrau, a dim ond ar ôl i chi ddechrau eich astudiaethau y mae eraill ar gael. Mae rhai yn grantiau ac mae'n rhaid ad-dalu rhai eraill.

Bydd meini prawf cymhwysedd a rheolau eraill yn dibynnu ar y sefydliad unigol sy'n cynnig unrhyw gynllun o'r fath. Dylech gysylltu â'ch darparwr yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth ac i weld pa gymorth neu ddyfarniadau sydd ar gael.

Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hyn cyn i chi ddechrau eich cwrs oherwydd efallai bod cymorth ychwanegol y gallech ei gael yn ystod eich blwyddyn gyntaf.

## Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDA (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn rhai sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Mae cynllun DaDA ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 23 oed, sy'n dangos talent a thebygolrwydd o lwyddo yn y diwydiant. Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a ble rydych chi'n byw ac yn astudio. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar **wefan Llywodraeth y DU**.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau** hyd at £1,000 ar gyfer cyrsiau dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Gellir defnyddio bwrsariaeth i dalu ffioedd dysgu, dosbarthiadau a chostau eraill.

## Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig **Ysgoloriaethau Ymchwil** i tua 10 o fyfyrwyr PhD y flwyddyn sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau, y gofynion cymhwysedd a sut i wneud cais ar gael ar ei wefan.